

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-11-12 papur 11

### Ymchwiliad i farw-enedigaethau yng Nghymru – Y cylch gorchwyl a awgrymir

#### Cyflwyniad

Yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2012, cytunodd y Pwyllgor i lansio ymchwiliad i farw-enedigaethau yng Nghymru sy'n canolbwyntio'n benodol ar dyfiant gwael y ffetws a llai o symudiadau gan y ffetws.

Diben y papur hwn yw cyflwyno rhywfaint o wybodaeth gefndir, awgrymu cylch gorchwyl ac awgrymu tystion ar gyfer yr ymchwiliad i'r Pwyllgor.

Cynhyrchwyd y papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Victoria Paris yn y Gwasanaeth Ymchwil

Rhif estyniad ffôn: 8678

E-bost: [victoria.paris@cymru.gov.uk](mailto:victoria.paris@cymru.gov.uk)



Research  
Service

## Gwybodaeth gefndir

### *Terminoleg*

Yn dibynnu ar pryd y collir y ffetws/baban:

- Camesgoriad (neu erthylid naturiol) – yn ystod chwe mis cyntaf y beichiogrwydd;
- Marw-enedigaeth – geni ar ôl 24 wythnos neu fwy, ond nad yw'r baban wedi anadlu na dangos arwyddion o fywyd ar unrhyw amser;
- Newydd-anedig cynnar – y baban yn marw o fewn saith niwrnod i'w eni;
- Amenedigol – sy'n cynnwys marw-enedigaethau a marwolaethau yn y cyfnod newydd-anedig cynnar;
- Newydd-anedig – y baban yn marw o fewn 28 niwrnod i'w eni;
- Ôl newydd-anedig – y baban yn marw pan fydd rhwng 28 niwrnod ac 1 flwydd oed.

### *Pa mor gyffredin yw marw-enedigaethau?*

Mae oddeutu 4,000 o farw-enedigaethau yn y DU bob blwyddyn a bydd un enedigaeth ym mhob 200 yn farw-enedigaeth. Bydd un baban ar ddeg yn farw-anedig yn y DU bob dydd, sy'n golygu bod marw-enedigaeth ddeg gwaith yn fwy cyffredin na marwolaeth yn y crud.<sup>1</sup>

### *Achosion marw-enedigaethau*

Nid oes esboniad ynghylch llawer o farw-enedigaethau ac er y gall y cyflyrau a'r ffactorau a nodir isod gyfrannu at farwolaeth y baban, nid dyma achos uniongyrchol y farwolaeth o reidrwydd. Maent yn cynnwys:

- Gwaedlif yn y fam naill ai cyn geni neu yn ystod y geni;
- Mae gan y baban annormaledd cyn ei eni;
- Problemau o achos y brych: gall ddatod o'r groth cyn y bo'r baban yn cael ei eni (y brych yn torri'n swta), neu mae'n bosibl nad oedd y brych yn darparu digon o ocsigen a maethynnau i'r baban sy'n golygu na fydd y baban yn tyfu'n iawn (mae diffyg tyfiant yn y groth yn gysylltiedig â thraean yr holl achosion o farw-enedigaethau);
- Problem gyda llinyn y bogail: gall lithro i lawr trwy geg y groth cyn y bo'r baban yn cael ei eni (a elwir yn llithriad y llinyn a bydd yn digwydd mewn un ym mhob 200 o enedigaethau), neu gall y llinyn amlapio o gylch gwddf y baban;
- Cyneclampsia: cyflwr a all achosi pwysedd gwaed uchel yn y fam; gall cyneclampsia ysgafn effeithio ar hyd at 10% o bob beichiogrwydd cyntaf a gall cyneclampsia difrifol effeithio ar 1% i 2% o bob beichiogrwydd;
- Haint gan y fam sy'n effeithio ar y baban hefyd.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Ymchwil, Sands, [Ystadegau](#) (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Mawrth 2012]

Mae ffactorau hefyd sy'n cynyddu'r risg o farw-enedigaeth. Bydd marw-enedigaethau'n digwydd yn fwy aml ymhlith y grwpiau o ferched a ganlyn:

- beichiogrwydd gyda gefeilliaid neu fwy na dau faban;
- mamau hŷn, hy dros 35 oed;
- mamau sydd yn eu harddegau;
- merched a chanddynt gyflyrau meddygol penodol, yn arbennig diabetes, pwysedd gwaed uchel a thromboffilia;
- merched sydd wedi cael cymhlethdodau obstetrig yn y gorffennol (anhwylder yr iau);
- merched sy'n ysmegu;
- merched sy'n ordew;
- merched sy'n byw mewn ardaloedd sy'n dioddef amddifadedd cymdeithasol;
- merched o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.<sup>3</sup>

### *Dulliau o'i atal*

Mae nifer o bethau y gellir eu gwneud yn ystod beichiogrwydd i wella iechyd y fam ac i leihau'r risg o farw-enedigaeth. Yn eu plith y mae rhoi'r gorau i ysmegu (os yn berthnasol), peidio ag yfed alcohol, bwyta'n iach, cadw at apwyntiadau meddygol cyn-genï ac ati. Mae'n bwysig bod y fam a'r baban yn cael eu monitro yn ystod y beichiogrwydd fel y gellir canfod pob beichiogrwydd sydd mewn categori risg mawr o gymhlethdodau a marw-enedigaeth er mwyn rhoi'r gofal priodol iddynt. Fodd bynnag, bydd y mwyafrif o farw-enedigaethau anesboniadwy'n digwydd lle nad oes dim risg wedi'i nodi gyda'r beichiogrwydd. Gall hyn fod oherwydd diffyg gwybodaeth am fathau penodol o feichiogrwydd neu ddiffyg monitro'r fam a'r baban yn ddigon da.

Mae Sands (y Gymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaeth cyn Genï) o'r farn y dylid datblygu dulliau mwy effeithiol o fonitro beichiogrwydd. Mae'r dulliau'n cynnwys monitro:

- Tyfiant y ffetws – mae cysylltiad rhwng babanod nad ydynt yn cyrraedd eu tyfiant posibl yn y groth a marw-enedigaethau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd dim ond 30% o'r babanod sy'n llai nag y dylent fod sy'n cael eu hadnabod yn ystod yr apwyntiadau cyn-genï.
- Symudiadau'r ffetws – yn aml bydd newid ym mhatrwm symud babanod cyn y byddant yn farw-anedig.<sup>4</sup>

---

<sup>2</sup> Dewisiadau'r GIG (NHS Choices), [Marw-enedigaeth – Achosion](#) (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Mawrth 2012]

<sup>3</sup> Ymchwil, Sands, [Achosion a ffactorau risg ar gyfer marw-enedigaeth](#) (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Mawrth 2012]

<sup>4</sup> Ymchwil, Sands, [Adnabod Beichiogrwydd lle y bydd risg o farw-enedigaeth](#) (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Mawrth 2012]

### *Ffetws sy'n fach o'i oed yn ystod beichiogrwydd*

Mae ffetws sy'n fach o'i oed yn ystod beichiogrwydd yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio ffetws nad yw wedi cyrraedd y trothwy amcan bwysau erbyn rhyw amser penodol yn y cyfnod beichiogrwydd. Mae ffetysau sy'n fach o'u hoed yn ystod y beichiogrwydd mewn mwy o berygl o fod yn farw-anedig. Defnyddir dulliau amrywiol i ganfod ffetysau sy'n fach o'u hoed yn ystod beichiogrwydd gan gynnwys cyffwrdd a theimlo'r abdomen, mesur uchder y ffwndws symffysaid<sup>5</sup> a phrawf uwchsain. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r profion hyn yn ynysedig ond bod ffactorau eraill fel tueddiadau'r ffetws o ran tyfu a nodweddion y fam yn cael eu hystyried.

### *Y ffetws yn symud yn llai aml*

Gellir teimlo symudiadau'r ffetws gyntaf yn y cyfnod rhwng 18 ac 20 wythnos o feichiogrwydd a bydd y symudiadau'n datblygu'n fuan yn batrwm y gellir sylwi arno. Mae symudiadau'r ffetws yn cynnwys cic ysgafn, ysgytwad bach, siffrwd neu rholio. Mae'n bosibl bod sylwi ar leihad sylweddol neu newid sydyn o ran symudiadau'r ffetws yn arwydd clinigol pwysig a gallai llai o symudiadau neu ddim symudiad o gwbl gan y ffetws fod yn rhybudd bod marwolaeth y ffetws ar ddigwydd.

### *Canllawiau*

Ym mis Tachwedd 2002, lluniodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr ganllawiau ar [\*ymchwilio i ffetysau sy'n fach o'u hoed yn ystod beichiogrwydd, a'u rheoli\*](#) (Saesneg yn unig) a chynigiodd argymhellion yn eu cylch.

Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ganllawiau clinigol ar [\*Gofal cyn-geini: gofal arferol ar gyfer merched beichiog iach\*](#) (Saesneg yn unig) sy'n darparu gwybodaeth am yr arferion gorau o ran gofal clinigol a gofal cyn-geini sylfaenol o bob beichiogrwydd a gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar y driniaeth briodol i'w chynnig mewn amgylchiadau penodol.

Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr gyngor newydd i glinigwyr ar drin merched pan fydd [\*y ffetws yn symud yn llai aml\*](#) (Saesneg yn unig) yn ystod eu beichiogrwydd, a rhoddodd argymhellion ynghylch sut y dylid ymdrin â merched, mewn lleoliadau iechyd yn y gymuned ac mewn ysbytai, pan fydd y ffetws yn symud yn llai aml.

Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen, [\*Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru\*](#), sy'n amlinellu disgwyliadau'r Llywodraeth o ran darparu gwasanaethau mamolaeth diogel, cynaliadwy o'r radd flaenaf gan y GIG yng Nghymru.

---

<sup>5</sup> Mesuriad o asgwrn yr arffed (y 'symphysis pubis') i ben yr wterws neu'r ffwndws, sy'n mesur uchder y ffwndws mewn centimedrau. Dylai'r mesur mewn centimedrau gydweddu'n agos ag oedran y ffetws o ran wythnosau yn ystod y beichiogrwydd, o fewn un neu ddwy centimetr, ee dylai wterws merch sydd wedi bod yn feichiog am 22 wythnos fod rhwng 20 a 24 centimetr o hyd.





## Y cylch gorchwyl a awgrymir

Diben y sesiwn hon yw:

- Edrych yn fanwl ar faint o ymwybyddiaeth sydd o'r canllawiau a'r argymhellion cyfredol ynghylch atal marw-enedigaethau, yn arbennig marw-enedigaethau sy'n gysylltiedig â thyfiant gwael a llai o symudiadau gan y ffetws, drwy'r sectorau gwahanol. Edrych hefyd sut y mae'r canllawiau a'r argymhellion yn cael eu gweithredu a pha mor effeithiol ydynt, a phle y mae'n bosibl cymryd camau i wella pethau.



## Tystion

Awgrymir bod y Pwyllgor yn gofyn am dystiolaeth gan y canlynol:

- Cyrff y sector cyhoeddus ee Cydffederasiwn GIG Cymru; Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyrff proffesiynol ee Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru, Coleg Brenhinol yr Obstetregwyr a Gynaecolegwyr; Coleg Brenhinol y Bydwagedd; Cymdeithas Feddygol Prydain;
- Sefydliadau'r trydydd sector ee Sands; Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant; y Gynghrair Marw-enedigaethau Rhyngwladol.

Yn ychwanegol at yr alwad gyffredinol am dystiolaeth, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan rai a fyddai â diddordeb.

Ar ddiwedd y cyfarfod trefnir sesiwn breifat ar gyfer yr Aelodau i ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law ac i gytuno ar ba gamau i'w cymryd.